

---

## IS FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH 17.02.2020

---

### Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais - Y Cynghorwyr:- Robert G Parry (Cyngor Ynys Môn), Greg Robbins (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Gareth Wyn Griffith (Cyngor Gwynedd), Brian Jones (Cyngor Sir Ddinbych) a Carolyn Thomas (Cyngor Sir y Fflint)

Swyddogion yn bresennol – Huw Percy (Cyngor Ynys Môn), Emlyn Jones (Cyngor Sir Ddinbych), Stephen Jones (Cyngor Sir y Fflint), Dafydd Wyn Williams (Cyngor Gwynedd), Iwan G Evans (Swyddog Monitro – Awdurdod Arweiniol), Peter Davies () ac Annes Sion (cofnodion – Awdurdod Arweiniol)

### **1. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Er nad yw'n rhan o'r protocol fod gofyn i Gadeirydd / Is Gadeirydd fod o'r Gorllewin a'r Dwyrain cytunwyd ar yr egwyddor hwn felly bu i'r Cyng. Robert Parry (Ynys Môn ei ethol yn Is-Gadeirydd.

### **2. YMDDIHEURIADAU**

Nodwyd ymddiheuriadau gan Darren Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)

### **3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. David Bithell - gan ei fod yn gweithio i Network Rail.

### **4. MATERION BRYD**

Ni dderbyniwyd unrhyw fater bryd i'w drafod.

### **5. COFNODION**

Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar y 2 Rhagfyr 2019 fel rhai cywir.

### **6. TRENAU**

Cyflwyniad gan Ioan Jenkins, Cyfarwyddwr Datblygu Trafnidiaeth Cymru – Gwasanaeth Rheilffyrdd.

### **TRAFODAETH**

Derbyniwyd cyflwyniad gan Trafnidiaeth i Gymru a oedd yn nodi'r cynlluniau am y flwyddyn i dod. Pwysleisiwyd y bydd cynnydd mewn perfformiad, amserlenni gwell a mwy o drenau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod angen i rhwydwaith bysus a trenau i weithio gyda'i gilydd. Amlygwyd y strwythur o ran Trafnidiaeth Cymru.
- Pwysleisiwyd yr angen i fod yn cyfathrebu yn well yn benodol gyda'r cyhoedd. Ymhelaethwyd gan nodi nad oedd newidiadau i'r amserlenni wedi ei amlygu i'r cyhoedd. Trafodwyd y newidiadau i'r amserlenni gan nodi fod Trafnidiaeth Cymru yn gobeithio y bydd addasiadau i'r amserlen yn cael ei wneud y flwyddyn nesaf ac fod trafodaethau ar y mater yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.
- Trafodwyd teithio o'r gogledd i Gaerdydd gan nodi ei fod yn un o deithiau craidd y gwasanaeth. Nodwyd fod y daith gyflym newydd yn golygu nad yw pob gorsaf y gogledd yn rhan o'r gwasanaeth ond ei fod yn stopio yn llawer o'r gorsafoedd dros y ffin. Holwyd os oes modd edrych ar hyn unwaith eto gan fod lleihau amser ddim yn mynd i olygu peidio stopio mewn lleoliadau ar hyd y gogledd.
- Holwyd am rhifau cyswllt er mwyn cysylltu a staff Trafnidiaeth Cymru – cytunwyd i anfon y wybodaeth at yr aelodau yn dilyn y cyfarfod.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd creu ticedi integredig ar gyfer trafndiaeth.
- Gofynnwyd am ddiweddariad erbyn cyfarfod 18 Mai ar y materion amserlennu.

## **7. TEITHIO LLESIOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Stephen Jones – Cyngor Sir y Fflint.

### **PENDERFYNIAD**

Bu i'r Is-Fwrdd gydnabod gofynion sydd wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 wedi ei wneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynhyrchu mapiau teithiau llesol. Datblygwyd mapiau integredig a cyhoeddwyd y mapiau yn 2017. Nodwyd fod gofynion pellach o fewn y ddeddf i ddiweddarau y mapiau ac i gyflwyno adroddiad blynyddol.

Mynegwyd fod Canllawiau Darparu a Dylunio wedi ei addasu gan Lywodraeth Cymru ac mae cyfarfod i drafod hyn yn Llandudno. Ychwanegwyd fod angen uwchraddio y mapiau ac fod hyfforddiant am gael ei gynnal ar yr ymgynghoriaeth. Nodwyd o ganlyniad i hyn fod posibilrwydd i dyddiad Mai 2020 wedi cael ei ymestyn i Chwefror 2021. Mynegwyd fod cyllid i greu a ymgynghori wedi cael ei ddarparu gan y llywodraeth ond nid yw'r Llywodraeth wedi cyhoeddi faint o gyllid a gaiff ei glustnodi ar gyfer creu y set nesaf o fapiau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd nad oes unrhyw arian ar gael ar gyfer penodi staff er mwyn creu y mapiau yma, a pwysleisiwyd y buasai 10-15% o'r arian yn gallu cael ei ddefnyddio ar gyfer swyddi. Mynegwyd fod angen codi hyn a Llywodraeth Cymru.

## **8. DIWEDDARIAD AR Y BIL BYSIAU (Cymru) A'R ADOYLGIAID BYSIAU RHANBARTHOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Stephen Jones – Cyngor Sir y Fflint.

### **PENDERFYNWYD**

Nodwyd y diweddariad a cytunwyd i drafod y mater ymhellach yn yr Is-Fwrdd yn y dyfodol.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn diweddarar yr Is-Grŵp ar y cynnydd gyda'r Bill Bysiau yn ogystal a diweddariad ar gynnydd gyda'r gwaith datblygu rhwydwaith bysiau rhanbarthol. Mynegwyd o ran y Bil Bysiau yn dilyn y cyhoeddiad ac yr ymgynghoriad ar y bil fod rhai agweddau wedi cael eu tynnu allan bellach. Amlygwyd na fydd tacsis cherbydau hurio preifat yn ymddangos ar y bill terfynol. Yn ychwanegol at hyn mynegwyd fod cynigion i adolygu deddfwriaeth Cyd-Awdurdodau Trafnidiaeth wedi'i tynnu o'r drafft terfynol, ac maent wedi'u hymgorffori yn y Papur Gwyn Llywodraeth Leol ac Etholiadau. Nodwyd yn ogystal, fod adolygu'r newid oed yn y cynllun Tocynnau Ratach wedi'u tynnu o'r bil hefyd.

O ran y gwaith Datblygu Rhwydwaith Bysiau Rhanbarthol nodwyd yr angen i adeiladu ar wersi a ddysgwyd o awdurdodau y rhanbarth. Ychwanegwyd fod adolygiad cynhwysfawr wedi ei wneud gan Cyngor Sir Fflint a Chyngor Gwynedd sydd yn amlygu beth sydd ei angen. Mynegwyd fod trafodaethau wedi dechrau ar y gwaith yma a amlygwyd yr elfennau sydd i'w gweld yn y cynllun gwaith cychwynol. Pwysleisiwyd y bydd diweddariad ar y maes wrth i'r gwaith barhau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Trafodwyd Cyd-Awdurdodau Trafnidiaeth gan nodi fod y model mae'r Llywodraeth yn awyddus i'w gael yn wahanol a dim yn rhwydd.
- O ran y Bil Bysiau nodwyd fod angen mwy o eglurhad gan y Llywodraeth. Yn ogystal nodwyd fod angen edrych ar pa beilot a lwydodd a sut mae modd ei wneud yn llwyddiannus.

## **9. ADRODDIAD AR 'FANNAU GWEFRU'**

Cyflwynwyd gan Dafydd Wyn Williams – Cyngor Gwynedd

### **PENDERFYNIAD**

Yn amodol ar adnabod adnoddau comisiynu astudiaeth i asesu opsiynau rhanbarthol i osod, cynnal a rholi mannau gwefru.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod llawer o alw i fod yn fwy caredig gyda'r amgylchedd. Rhagwelir cynnydd sylweddol yn y nifer o gerbydau trydan ar ffydd ac o ganlyniad bydd angen mwy o fannau gwefru. Ychwanegwyd fod pob awdurdod ar draws y rhanbarth yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol. Amlygwyd yn yr Alban fod un cynllun i'w gweld ar draws y wlad ac ei fod wedi ei syml i'w ddeall.

Holwyd gan y bydd mwy o bwysau ar awdurdodau a oes modd i weithio ar y cyd ac i gomisiynau darn o waith i asesu opsiynau rhanbarthol a beth fuasai'r buddion o wneud hyn.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd y prif bwynt yw fod y rhanbarth yn gweithio gyda'i gilydd ac fod modd sicrhau fod y mannau gwefru yn syml ar gyfer defnyddiwr.
- Mynegwyd fod £2filiwn ar gael gan Llywodraeth Cymru ond fod uchafswm ar gyfer pob awdurdod. Ychwanegwyd y bydd angen edych ar sut i ariannu hyn a gweld os y buasai'r model rhanbarthol yn fodel ar gyfer gweddill Cymru.

— Gofynnwyd am ddiweddariad yn y cyfarfod nesaf ar ddefnydd y pwyntiau gwefru ar hyn o bryd.

## **10. HYDROGEN – TANWYDD I'R DYFODOL.**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Stephen Jones – Cyngor Sir Fflint.

### **PENDERFYNIAD**

Nodwyd a derbyniwyd yr adroddiad.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn roi diweddariad ar y gwaith o ddatblygu cynigion am hwb hydrogen ynghyd a chyfle i edrych ar y dull o brynu cerbydau hydrogen ar y cyd fel rhan o wasanaethau fflyd Awdurdodau Lleol.

Mynegwyd fod astudiaethau wedi bod yn rhoi cyfleodd i gynlluniau peilot gael ei cynnal ar draws y rhanbarth. Amlinellwyd y canlyniadau yn y tri cynllun peilot. Ym Marc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy amlygwyd y buasai modd defnyddio cerbydau hydrogen ond fod problem wedi codi nad yw'r cerbydau yn cynnwys bws deulawr. Amlygwyd fod defnydd i'r cerbydau yng Nghaerdybi yn bosib ar tri o'r pedwar taith leol a wnaethpwyd eu defnyddio fel rhan o'r cynllun peilot. O ran cynllun Peilot rhwydwaith Sherpa, mynegwyd nad oedd yn ymateb i'r gofynion oherwydd natur y ffyrdd ac y buasai derbyn cyflenwad o hydrogen yn broblem i'r ardal. Mynegwyd fod cynllun pellach wedi ei gomisiynau yn Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy gan fod angen mwy o waith.

Nodwyd fod y defnydd o danwydd hydrogen yn well ar gyfer cerbydau mawr. Ychwanegwyd yr angen i fod yn gwneud gwaith rhanbarthol.

Dechreuodd y cyfarfod am 9:30am a daeth i ben am 11:25pm.